

## **Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol**

### **Arolygiad (Lle rhoddwyd rhybudd, Dilynol)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan: Ysbyty  
Gwynllyw, Ward Penhow**

24 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb .....	4
5.	Canfyddiadau .....	6
	Ansawdd Profiad y Claf .....	6
	Cyflenwi Hanfodion Gofal .....	8
	Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	14
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol .....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	21

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad urddas a gofal hanfodol lle rhoddwyd rhybudd (dilynol) o Ward Penhow yn Ysbyty Gwynllyw, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 24 Mawrth 2015.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal ar ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth gan nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

### 3. Cyd-destun

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 1 Hydref 2009, ac mae'n cynnwys ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a de Powys.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi dros 13,000 o staff, ac mae dau o bob tro ohonynt yn ymwneud â gofal cleifion uniongyrchol. Ceir mwy na 250 o feddygon ymgynghorol mewn cyfanswm o dros 1,000 o feddygon ysbyty a phractis cyffredinol, a 6,000 o nyrsys, bydwragedd, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, a gweithwyr cymunedol. Arweinir y bwrdd iechyd gan y cadeirydd, cyfarwyddwyr anweithredol, y prif weithredwr, a chyfarwyddwyr gweithredol eraill. Cefnogir y bwrdd gan yr Uwch Dîm Rheoli.

Mae ysbyty cymuned Gwynllyw wedi'i leoli ar gyrion gorllewinol canol dinas Casnewydd ar ben Stow Hill gyferbyn ag Eglwys Gadeiriol Gwynllyw.

Mae Uned Casnewydd yr ysbyty'n cynnwys wardiau sy'n darparu cyfuniad o adsefydlu a meddygfa ddydd i gleifion. Gall cleifion gael mynediad hefyd at wasanaethau ymarfer cyffredinol cleifion allanol a thu allan i oriau yn Ysbyty Gwynllyw.

Ceir 24 gwely yn Ward Penhow, sydd wedi'u rhannu'n gymysgedd o gilfannau cleifion pedwar a chwe gwely ac ystafelloedd sengl. Mae'r dderbynfa wedi'i lleoli mewn man canolog ar y ward. Mae'r ward yn derbyn cleifion gwrywaidd yn unig. Er bod y ward wedi'i neilltuo i ddarparu gwasanaethau adsefydlu, canfuwyd gennym fod cleifion yn cyrraedd gydag amrywiaeth o anghenion hirdymor cymhleth, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn oedrannus ac yn eiddil hefyd.

## 4. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag arolygiad dilynol a gwblhawyd gan AGIC ar 24 Mawrth 2015 yn Ward Penhow, Ysbyty Gwynllyw, Casnewydd. Diben yr ymweliad hwn oedd cadarnhau i ba raddau y gwnaed cynnydd gan y bwrdd iechyd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn arolygiad blaenorol AGIC (3 a 4 Rhagfyr 2014), yn enwedig o ystyried nifer y materion a nodwyd. Hefyd, i sicrhau bod y gwelliannau a wnaed yn cyd-fynd â chanllawiau'r Hanfodion Gofal a safonau gofal hanfodol y GIG yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Canfuom fod y safonau hylendid wedi gwella'n sylweddol yn yr arolygiad dilynol hwn. Roedd yr holl fannau a oedd yn cynnwys cleifion i'w gweld yn lân, ac roedd y toiledau a'r manau ymolchi yn ffres. Canfuom hefyd fod yr amserlen ar gyfer glanhau'r ward wedi cael ei diwygio a'i gwella, a bod yr amgylchedd gofal yn rhydd rhag annibendod a pheryglon baglu.

Canfuom fod y bwrdd iechyd a thîm y ward wedi cyflwyno amrywiaeth o systemau a gweithdrefnau i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i ansawdd agweddau ar ofal iechyd a gofal cymdeithasol i gleifion ar Ward Penhow. Roedd hyn yn ymateb uniongyrchol i ganfyddiadau ein harolygiad blaenorol, ac yn unol â'r Hanfodion Gofal presennol.

Nid yw Ward Penhow wedi cael ei defnyddio'n barhaol ers 2012. Roedd hyn yn golygu bod y gweithlu yn y rhan hon o'r ysbyty wedi bod heb gartref parhaol ac yn ansefydlog. Fodd bynnag, gwnaeth y bwrdd iechyd benderfyniad (Medi 2014) i gadw Ward Penhow ar agor tan fis Hydref 2015, a phenodwyd rheolwr newydd i'r ward (ar secondiad) bedair wythnos cyn ein harolygiad ym mis Rhagfyr 2014.

Yn ystod yr arolygiad dilynol hwn, canfuom fod gwelliant pendant o ran sgiliau'r gweithlu, ac o ran gwybodaeth a sefydlogrwydd tîm y ward. Roedd llai o staff banc ac asiantaeth yn cael eu defnyddio, ac roedd y bwrdd iechyd wedi recriwtio pum nyrs gofrestredig ychwanegol yn Ysbyty Gwynllyw, a phenodwyd rhai o'r rhain i Ward Penhow.

Canfuom fod gwelliannau wedi eu gwneud er mwyn sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles y cleifion yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn. Yn fwy penodol, roedd y staff ar fin derbyn hyfforddiant ynglŷn â gweithredu deddfwriaeth y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd tîm y ward hefyd yn cael ei gynorthwyo a'i gynghori gan gynrychiolwyr gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion Hŷn y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw gleifion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.

Ers ein harolygiad cyntaf, roedd holl staff Ward Penhow wedi cael eu hatgoffa o bwysigrwydd gweinyddu meddyginiaethau'n ddiogel a pholisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd. Yn ogystal, roedd yr holl nyrsys cofrestredig wedi cwblhau ymarfer rownd gyffuriau dan oruchwyliaeth gyda rheolwr y ward, ac o ganlyniad gweithredwyd safonau proffesiynol a pholisïau'r bwrdd iechyd yn gyson.

Ar y cyfan, daethom o hyd i dystiolaeth bod y bwrdd iechyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu i gleifion ar Ward Penhow. Yr her i'r bwrdd iechyd fydd sicrhau ei fod yn gallu cynnal neu hyd yn oed adeiladu ar sail y gwelliannau a nodwyd yn ystod yr ymweliad hwn.

Bydd hi'n bwysig hefyd i weld a yw ein canfyddiadau wedi bod yn sbardun i weithgareddau trosfwaol y bwrdd iechyd o ran archwilio a sicrhau ansawdd, yntau a yw camau gweithredu'r bwrdd iechyd wedi cael eu cyfyngu i ddarparu gwelliannau yn Ward Penhow.

Bydd hyn yn ffactor i'w ystyried yn ystod rhaglen archwilio AGIC yn 2015/16, fel rhan o werthusiad ehangach o drefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer monitro a sicrhau effeithiolrwydd ei wasanaethau. I'r perwyl hwn, bydd AGIC yn rhoi ystyriaeth i'r materion canlynol, ac nid yn unig i'r rhain, mewn perthynas â systemau archwilio ac effeithiolrwydd clinigol:

- I ba raddau y mae gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â chleifion yn uniongyrchol, ar yr ochr glinigol a'r ochr reoli, wedi'u hymrymuso'n ddigonol i leisio eu barn a chymryd camau os byddant yn nodi meysydd i'w gwella fel y rhai a nodir gan AGIC, ac yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain.
- I ba raddau y mae diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu yn y bwrdd iechyd sy'n cynorthwyo'r staff i nodi ac i ddatrys problemau.
- I ba raddau y mae gan y bwrdd iechyd y wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws pob ymyriad clinigol ac i gymryd camau cyflym pan fo diffygion.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Canfuom fod y safonau hylendid wedi gwella'n sylweddol yn yr arolygiad dilynol hwn. Roedd yr holl fannau a oedd yn cynnwys cleifion i'w gweld yn lân, ac roedd y toiledau a'r mannau ymolchi yn ffres. Canfuom hefyd fod yr amserlen ar gyfer glanhau'r ward wedi cael ei diwygio a'i gwella, a bod yr amgylchedd gofal yn rhydd rhag annibendod a pheryglon baglu.**

*Yn ystod arolygiad diwethaf AGIC (Rhagfyr 2014), gwelsom fod y ward yn anniben drwyddi draw, ac roedd lîd sugnydd llwch wedi cael ei adael heb ei dorchi yn y coridor (a allai fod wedi achosi i glaf neu aelod o staff faglu neu gwympto). Canfuom hefyd fod arogl drwg ar y ward; roedd rhai mannau i'w gweld yn aflan yn ystod ein harolygiad deuddydd.*

Yn ystod yr arolygiad hwn, canfuom fod y safonau hylendid wedi gwella'n sylweddol. Roedd yr holl fannau a oedd yn cynnwys cleifion i'w gweld yn lân, ac roedd y toiledau a'r mannau ymolchi yn ffres. Canfuom hefyd fod amserlen glanhau'r ward wedi cael ei adolygu, ac roedd effeithiau hyn yn cael eu monitro drwy ddangosyddion ansawdd cydnabyddedig (a elwir hefyd yn fetrigau gofal). Yn benodol, canlyniad y trefniadau glanhau newydd oedd rhoi gweithdrefnau glanhau dwfn ar waith i lanhau un gilfan cleifion bob diwrnod o'r wythnos, yn ogystal â dyletswyddau glanhau a chadw tŷ cyffredinol ar y ward.

Ers yr arolygiad diwethaf, roedd y bwrdd iechyd wedi cyflwyno rowndiau amgylcheddol misol, a oedd yn cael eu cwblhau gan reolwr y ward, yr uwch-nyrs, y nyrs rheoli heintiau a'r staff ystadau. Roedd y cofnodion ysgrifenedig a gedwir o ganlyniad i 'rowndiau' o'r fath yn dangos yn glir y gweithredwyd ar faterion a nodwyd fel meysydd i'w gwella. Gwelsom hefyd ganlyniadau archwiliadau rheoli heintiau wedi eu harddangos ar y wal ar y prif goridor ar ffurf croesau diogelwch.<sup>1</sup> Roedd hyn yn golygu bod staff, perthnasau ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn gallu gweld, drwy system syml, nifer y digwyddiadau rheoli heintiau perthnasol yn ymwneud â Ward Penhow.

---

<sup>1</sup> Mae'r Groes Ddiogelwch wedi cael ei haddasu o faes diwydiant i wneud digwyddiadau anffafriol y gellid bod wedi eu hosgoi yn weladwy iawn. Mae gwneud hyn yn sicrhau bod y tîm cyfan yn ymwybodol o ddigwyddiadau y gellid bod wedi eu hosgoi, ac mae hyn felly yn meithrin ymdeimlad o bwrpas wrth weithio i osgoi digwyddiadau yn y dyfodol.



Gwelsom fod y ward yn rhydd rhag annibendod a pheryglon baglu; mae cyfarpar codi a chario bellach yn cael ei storio mewn man ar y ward sydd allan o'r ffordd.

Nid oedd arogl drwg mewn unrhyw ran o'r ward, ac roedd digon o glytiau diheintio cyffredinol ar gael mewn amryw fannau yno o fewn cyrraedd hawdd i'r staff.

Ni wnaeth y cleifion a siaradodd â ni yn yr arolygiad hwn leisio unrhyw bryderon ynghylch glendid y ward.

## Cyflenwi Hanfodion Gofal

**Yn ystod yr arolygiad undydd lle rhoddwyd rhybudd hwn gan AGIC, canfuom fod y bwrdd iechyd a thîm y ward wedi cyflwyno amrywiaeth o systemau a gweithdrefnau i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i ansawdd agweddu ar ofal iechyd a gofal cymdeithasol i gleifion ar Ward Penhow. Roedd hyn yn ymateb uniongyrchol i ganfyddiadau ein harolygiad blaenorol, ac yn unol â'r Hanfodion Gofal presennol.**

### **Parchu pobl**

*Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus bob amser, a rhaid i'r gofal a ddarperir ystyried anghenion, galluedd a dymuniadau'r unigolyn.*

*Yn ystod ein harolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd nifer fach o gleifion yn gwisgo crysau pyjamas wrth eistedd mewn cadeiriau wrth ochr eu gwelyau, a dim dillad nos o gwbl pan oeddent yn eu gwelyau mewn rhai achosion. Datgelodd sgysiau gyda'r staff a chleifion bryd hynny fod rhai pobl wedi dewis peidio â gwisgo crysau gan eu bod yn teimlo'n rhy boeth, ond ni chawsom unrhyw esboniad pam na ddarperir dillad priodol i gleifion sy'n derbyn gofal yn eu gwelyau.*

Yn ystod yr ymweliad hwn, gwelsom fod y cleifion wedi eu gwisgo'n briodol mewn pyjamas, tra bod eraill naill ai'n gwisgo dillad nos yr ysbyty neu eu dillad dydd eu hunain. Gwnaeth sgwrs â rheolwr y ward ddatgelu'r ymdrechion a wneir i annog perthnasau i ddod â dillad glân y cleifion i'r ysbyty yn rheolaidd er mwyn helpu i gynnal urddas y cleifion.

Gwnaeth trafodaeth â rheolwr y ward dynnu sylw at y ffaith bod menter o'r enw 'I Care' wedi'i chyflwyno, sy'n fath o rowndio bwriadol.<sup>2</sup> Mae'r dull 'I Care' yn golygu bod yn rhaid i'r staff dreulio o leiaf dwy awr bob dydd gyda chleifion i sicrhau bod clychau galw'r cleifion yn cael eu gosod yn agos atynt, er mwyn iddynt allu gofyn am gymorth yn ôl yr angen. Yn ogystal, roedd y fenter trawsnewid gofal hon wedi gwella gofal cleifion o ran cymorth i gleifion gan staff gyda'u hanghenion toiled, darparu diodydd rheolaidd, a mesurau diogelwch. Gwnaeth sgysiau â'r staff

---

<sup>2</sup> Proses yw rowndio bwriadol sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnal archwiliadau rheolaidd gyda chleifion unigol ynghylch eu gofal, yn dilyn cyfnodau wedi eu pennu.

gadarnhau eu bod yn teimlo eu bod wedi eu grymuso'n fwy i ddarparu gofal a chymorth i gleifion yn brydlon ar bob adeg o'r dydd a nos o ganlyniad i'r trefniadau uchod.

Fe'n hysbyswyd hefyd am y ffaith bod 'clinig gofalwyr' wedi cael ei gyflwyno, a oedd yn rhoi cyfle i gleifion a'u perthnasau i gyfrannu at drafod materion yn ymwneud â gofal, triniaeth ac amgylchedd y ward. Hyd yn hyn, mae wedi arwain at brynu teledu newydd mwy o faint i'w osod ar wal ystafell ddydd y cleifion.

*Yn ystod ein harolygiad blaenorol (Rhagfyr 2014), canfuom nad yw un o'r ddau bath sydd ar gael ar y ward yn cael ei ddefnyddio oherwydd nam a ddarganfuwyd. Gwelsom hefyd fod sedd toiled wedi ei faeddu ag ysgarthion wedi sychu.*

Ers yr adeg honno, mae'r bath wedi cael ei atgyweirio, ac roedd pob toiled/man ymolchi i'w gweld yn lân a hylan yn ystod yr arolygiad hwn.

### **Hybu annibyniaeth**

*Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn i fanteisio i'r eithaf ar ei allu a'i ddymuniad i ofalu am ei hunan.*

*Yn ystod ein harolygiad blaenorol, fe'n hysbyswyd gan gleifion a staff nad oes unrhyw weithgareddau ar y ward sy'n cynnig cyfle i bobl gymdeithasu oddi wrth yr erchwyn. Gwelsom hefyd na ddefnyddiwyd yr ystafell ddydd (a ddefnyddir fel ystafell fwyta hefyd) gan unrhyw gleifion ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad dirybudd.*

Ar yr achlysur hwn, datgelodd sgysiau gyda rheolwr y ward a'r uwch-nyrs eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda'r gwasanaeth gwirfoddoli (cynllun Red Robin). Roedd hyn er mwyn gwella nifer yr oriau gwirfoddoli sydd ar gael er mwyn sefydlu rhaglen weithgareddau a chlwb cinio a fyddai'n annog mwy o gleifion i dreulio amser i ffordd o'r erchwyn er mwyn paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Yn ystod yr arolygiad hwn, roedd yn glir bod gwirfoddolwyr Red Robin ar gael ar y ward; cyn y pryd o fwyd amser cinio, gofynnwyd i'r cleifion beth hoffent i'w fwyta. Gwelwyd nifer fach o wirfoddolwyr hefyd yn dosbarthu bwyd ac yn cynnig cymorth yn ystod y cyfnod cinio.

Gwelsom fod cleifion yn cael cymorth i dreulio amser yn yr ystafell ddydd i wyllo'r teledu ar adegau pan oedd y gwelyau yn cael eu glanhau'n drylwyr ac er mwyn paratoi ar gyfer cinio. Datgelodd sgysiau gyda'r staff hefyd eu bod wedi cael cyfle i gyfrannu at y gwaith o ailwampio'r ystafell ddydd.

*Yn flaenorol, gwelsom fod nifer fawr o gleifion yn aros yn eu gwelyau am gyfnodau hir o amser dros gyfnod o ddau ddiwrnod; ni roddwyd unrhyw esboniad am hyn. Cawsom hefyd sgysiau â'r nyrsys cofrestredig a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd, ac fe'n hysbyswyd mai prin iawn oedd yr amser ar gael iddynt annog cleifion i gymryd rhan ymarferol yn y broses o ymolchi a gwisgo eu hunain.*

Yn ystod yr arolygiad lle rhoddwyd rhybudd hwn, gwnaethom gynnal trafodaethau â staff nyrsio a ffisiotherapyddion, a chanfuom fod mwy o bwyslais ar annog a chynorthwyo cleifion i symud o gwmpas y ward ac i amrywio faint o amser yr oeddent yn ei dreulio yn y gwely (yn unol ag anghenion, dymuniadau a galluoedd y cleifion). Dywedodd rheolwr y ward wrthym hefyd fod y ward wedi cyflwyno system oriau ymweld agored ers mis Ionawr 2015. Canlyniad hyn oedd bod mwy o ymweliadau gan berthnasau'r cleifion, ac roedd hyn yn helpu i annog y cleifion i wneud rhai pethau drostynt eu hunain.

### **Gorffwys, cysgu a gweithgareddau**

*Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd pobl a'u cysur er mwyn iddynt allu gorffwys a chysgu.*

*Yn ystod ein harolygiad blaenorol, cawsom drafodaethau gyda'r staff a nifer fach o unigolion a ddangosodd yr amherir ar gwsg y cleifion yn rheolaidd yn y nos oherwydd anghenion cymhleth rhai cleifion ar y ward.*

Yn ystod yr ymweliad hwn, gwelsom arwyddion a osodwyd mewn mannau allweddol ar y ward, a oedd yn atgoffa'r staff o bwysigrwydd cyfnodau gorffwys i'r cleifion, ac o'r angen i gael amgylchedd tawel. Gwnaeth trafodaethau â rhai cleifion ddangos nad oeddent yn cael eu haflonyddu'n ddiangen gan sŵn neu gan gleifion eraill yn ystod y nos.

Roedd rheolwr y ward yn gallu cadarnhau bod diodydd poeth a byrbrydau ar gael i'r cleifion drwy gydol y nos os oedd angen. Fe'n hysbyswyd hefyd bod trefniadau cynllunio gofal ynghylch unrhyw gleifion a allai gael eu cynhyrfu yn ystod y nos yn cael eu monitro'n agos, a'u bod yn cael cymorth yn unol â'u hanghenion.

### **Sicrhau cysur a lleddfau poen**

*Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac mor ddi-boen ag y mae eu hamgylchiadau yn caniatáu.*

*Gwnaethom sgwrsio â nyrsys cofrestredig, a gwelsom sampl o gofnodion pum claf yn ystod ein harolygiad ym mis Rhagfyr 2014. O ganlyniad, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gennym fod poen cleifion yn cael ei asesu gan ddefnyddio dull asesu cydnabyddedig; dywedodd y staff eu bod yn gofyn i'r cleifion a ydynt mewn poen neu'n arsylwi iaith y corff neu ystumiau eu hwynebau i benderfynu a oes angen lleddfau poen. Hefyd, ni allem ddod o hyd i dystiolaeth bod poen cleifion yn cael ei werthuso; dywedodd nifer fach o gleifion bod yn rhaid iddynt ofyn am 'laddwyr poen' os oedd ganddynt unrhyw anghysur.*

*Canfuwyd gennym hefyd fod gan nifer fawr o gleifion ar y ward anawsterau cyfathrebu cymhleth.*

Yn dilyn ein harolygiad cyntaf, roedd tîm y ward wedi cyflwyno dull asesu poen cydnabyddedig i wella ei ddull o roi meddyginiaeth lleddfu poen i'r cleifion. Cadarnhaodd sgwrs gyda fferylllydd neilltuedig y ward y rhoddir pwyslais ar sicrhau bod cleifion mewn cyn lleied o boen â phosibl. Fe'n hysbyswyd hefyd fod cyfarfodydd misol ffurfiol yn cynnwys y prif nyrs, y fferylllydd a'r meddyg yn cael eu cynnal, er mwyn trafod amrywiaeth o faterion yn ymwneud â meddyginiaeth ragnodedig. Roedd rheoli poen yn destun a ystyrid mewn cyfarfodydd o'r fath.

### **Glendid personol, ymddangosiad a gofal traed**

*Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad, a'u traed.*

*Yn ystod arolygiad blaenorol AGIC, canfuom nad oedd yn ymddangos bod nifer fach o gleifion eiddil oedrannus ag anghenion cymhleth yn derbyn gofal da. Yn benodol, gwelsom gleifion â bwyd ar eu hwyneb a'u dillad a dau glaf nad oeddent wedi eillio, dros y cyfnod o ddau ddiwrnod. Gwelwyd fod angen glanhau ewinedd un claf.*

*Ers yr arolygiad diwethaf, roedd rheolwr y ward wedi cwblhau rhagor o archwiliadau mewn perthynas â darparu gofal cleifion (yn unol â chanllawiau'r Hanfodion Gofal), ac roedd wedi nodi gwelliannau yn y maes hwn, fel y trafodwyd. Cafodd rheolwr y ward gymorth hefyd i reoli'r ward gan reolwr ychwanegol am tua 95 y cant o'r amser. Roedd hyn yn golygu bod ganddi amser neilltuedig i oruchwylio a chynorthwyo'r staff i wella a chynnal safonau'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu i'r cleifion.*

*Dywedwyd wrthym fod lefelau staff yn cael eu monitro'n ddyddiol i sicrhau bod digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion cymhleth a newidiol y cleifion ar y ward.*

*Roedd yn ymddangos hefyd bod y cleifion yn derbyn gofal da yn ystod yr ymweliad hwn.*

### **Bwyta ac yfed**

*Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl, sy'n bodloni eu gofynion maeth a phersonol, a dylid rhoi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.*

*Pan wnaeth AGIC arolygu Ward Penhow ym mis Rhagfyr, canfuom fod angen gwella'r meysydd canlynol:*

- *O arsylwi ar y pryd o fwyd amser cinio'n cael ei weini ar ddeuddydd ein harolygiad, roedd yn amlwg nad oedd digon o staff yn bresennol i*

*gynorthwyo pobl i fwyta ac yfed yn ôl yr anghenion a oedd yn codi. Gwelwyd bod staff yn helpu'r cleifion fesul un mewn ffordd hamddenol. Fodd bynnag, er eu hymdrechion, nid oedd gan rhai unigolion unrhyw ddewis arall yn hytrach nag aros tan fod aelod o staff ar gael.*

- Cyrhaeddodd bwyd y cleifion yn y ward heb unrhyw orchuddion ar bob eitem a roddwyd ar ben y droli. Cadarnhaodd sgysiau â'r staff cadw tŷ fod tymheredd y bwyd wedi cael ei wirio cyn gadael y gegin, ond canfuwyd gennym mai'r arfer oedd plygio'r droli i mewn i soced yn yr ystafell ddydd. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r staff fynd â bwyd y cleifion i bob rhan o'r ward o'r un man hwnnw. Roedd yr oedi cyn cynorthwyo rhai cleifion i fwyta a'r trefniadau ar gyfer gweini bwyd yn golygu nad oedd tymheredd prydau'n cael ei gynnal.*
- Gadawyd bwyd un claf ar fwrdd yr erchwyn y tu hwnt i gyrraedd y person dan sylw. Hefyd, gwelsom glaf yn cael trafferth i dorri ei fwyd ei hun, felly ymyrodd aelod o'r tîm arolygu er mwyn sicrhau bod y claf yn gallu bwyta ei fwyd cyn iddo oeri. Roedd holl staff y ward wrthi'n helpu pobl eraill ar y pryd.*
- Roedd yn ymddangos nad oedd nifer o gleifion a oedd yn bwyta yn eu gwelyau wedi cael eu lleoli mor syth â phosibl iddynt allu bwyta eu prydau (yn gyfforddus ac yn ddiogel). Canfuwyd gennym hefyd nad oedd byrddau ar erchwyn cleifion yn cael eu tacluso a'u glanhau cyn gweini prydau.*
- Dim ond dwywaith y dydd yr oedd jygiau dŵr y cleifion yn cael eu hail-lenwi. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau a gynhyrchwyd gan Safonau Arlwy a Maeth Cymru Gyfan,<sup>3</sup> sy'n awgrymu y dylid eu hail-lenwi dair gwaith y dydd.*
- Nid oedd y cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta eu prydau fel mater o drefn.*

Yn ystod yr arolygiad hwn, canfuom fod anghenion a gododd gyda rhai cleifion yn llai cymhleth na'r rhai a oedd yn derbyn gofal ar y ward yn ystod mis Rhagfyr 2014.

Fodd bynnag, gwelsom fod rhagor o wirfoddolwyr yn bresennol ar y ward a oedd yn gweithredu fel 'cyfeillion', ac roedd y trefniadau agored ar gyfer ymweliadau yn golygu bod perthnasau a gofalwyr yn cael eu hannog i ddod i'r ward a chynorthwyo cleifion i fwyta ac yfed os oedd angen. Gwelsom fod bwyd yn cael ei orchuddio wrth

---

<sup>3</sup> Dolen i safonau maeth Cymru gyfan.

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/nutrition/?lang=cy>

iddo gyrraedd y ward a'i fod yn cael ei weini'n brydlon gan westeiwraig y ward er mwyn atal pryddau'r cleifion rhag mynd yn oer. Gwelsom fod nifer o gleifion yn bwyta eu pryddau yn yr ystafell ddydd; yn agos at y troli bwyd a leolwyd mewn man canolog ar y ward.

Gwelsom fod y cleifion yn cael cymorth i eistedd mewn safle cyfforddus a diogel i fwyta eu bwyd, a bod byrddau ar yr erchwyn yn cael eu clirio cyn i'r pryd o fwyd amser cinio gael ei weini. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gan y staff fynediad at ddigon o glytiau diheintio cyffredinol er mwyn i'r cleifion (nad oeddent yn gallu cyrraedd y sinc) allu golchi eu dwylo cyn bwyta.

Gwelsom fod bwyd a diod y cleifion yn cael ei osod o fewn cyrraedd iddynt. Ni welsom unrhyw un a oedd angen cymorth yn cael eu gadael heb ofal. Nid oedd yn ymddangos ychwaith bod unrhyw oedi o ran cynnig cymorth i gleifion gan fod digon o staff yn bresennol ym mhob rhan o'r ward.

Cadarnhaodd sgysiau â'r staff fod jygiau dŵr y cleifion yn cael eu hail-lenwi dair gwaith y dydd. Fe'n hysbyswyd hefyd y cynhaliwyd cyfarfodydd y Grŵp Buddiannau Bwyd bob dau fis. Mae hwn yn fforwm amlddisgyblaethol sy'n rhoi cyfle i fonitro a gwella safonau maetheg yn yr ysbyty yn barhaus.

Fe'n hysbyswyd bod amser wedi'i neilltuo i'r staff gwblhau hyfforddiant ar-lein ynglŷn â'r llwybr Maetheg a Hydradu Cymru Gyfan.

Dangosodd sgwrs â nifer fach o gleifion eu bod yn mwynhau eu bwyd ac nid oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch yr agwedd hon ar eu gofal.

### **Anghenion toiled**

*Rhaid darparu cymorth priodol, diffwdan a phrydlon pan fo angen, gan roi ystyriaeth i breifatrwydd ac unrhyw anghenion penodol.*

*Tynnodd arolygiad blaenorol AGIC sylw at y meysydd canlynol i'w gwella:*

- *Nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth bod cleifion yn cael cynnig dewis a oeddent yn dymuno defnyddio'r toiled neu gomôd.*
- *Gwelsom wrinalau tafladwy ar fyrddau erchwyn cleifion, yn ystod amser bwyd ac ar adegau eraill yn ystod dau ddiwrnod ein harolygiad. Fe'n hysbyswyd gan y staff hefyd nad oedd unrhyw eitemau o offer ar gael ar y ward i lynu wrinalau ar ffrâm y gwely i ffwrdd oddi wrth fwyd a diod cleifion.*
- *Canfuwyd gennym hefyd bod perthynas un claf wedi codi pryder gyda thîm y ward yn ddiweddar gan nad oedd y staff yn gallu ymateb yn brydlon bob amser i geisiadau gan yr aelod o'i deulu i ddefnyddio'r toiled*

*yn y nos. Canfuwyd gennym hefyd yn ystod ail ddiwrnod ein harolygiad bod perthynas wedi gwneud cais i'r aelod o'i deulu dderbyn cymorth ymataliaeth tra oedd yn y gwely. Roedd hyn oherwydd bod y teulu wedi darganfod nad oedd gan y claf unrhyw fesur diogelwch o'r fath ar waith ar adeg eu hymweliad.*

Yn ystod yr arolygiad hwn, canfuom fod tîm y ward wedi derbyn hyfforddiant asesiad ymataliaeth gan y nyrs arbenigol briodol. Cafodd effeithiolrwydd hyfforddiant o'r fath ei werthuso gan reolwr y ward, ac roedd cynlluniau ar gyfer rhagor o hyfforddiant. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod yr elfen hon o ofal yn cael ei darparu a'i chynnal yn unol â chanllawiau'r Hanfodion Gofal.

Cadarnhaodd sgwrs â rheolwr y ward fod argaeledd ystod o gyfarpar wedi bod yn destun adolygiad er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael cynnig dewis o ddulliau o fynd i'r toiled.

Dywedwyd wrthym fod y fenter 'I Care' wedi rhoi system effeithiol i'r staff ar gyfer gwirio'n rheolaidd bod gan y cleifion eu clychau galw wrth law i ofyn am gymorth. Roedd y fenter hefyd yn gweithio'n dda mewn perthynas â'r cleifion hynny nad oeddent yn gallu defnyddio'r gloch alw oherwydd colled cof byrdymor/dementia. Roedd hyn am fod y staff yn mynd at gleifion yn rheolaidd i weld a oeddent yn gyfforddus, neu a oeddent angen diod neu ddefnyddio'r toiled.

### ***Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Nid yw Ward Penhow wedi cael ei defnyddio'n barhaol ers 2012. Roedd hyn yn golygu bod y gweithlu yn y rhan hon o'r ysbyty wedi bod heb gartref parhaol ac yn ansefydlog. Fodd bynnag, gwnaeth y bwrdd iechyd benderfyniad (Medi 2014) i gadw Ward Penhow ar agor tan fis Hydref 2015, a phenodwyd rheolwr newydd i'r ward (ar secondiad) bedair wythnos cyn ein harolygiad ym mis Rhagfyr 2014.**

**Yn ystod yr arolygiad dilynol, canfuom fod gwelliant pendant o ran sgiliau'r gweithlu, ac o ran gwybodaeth a sefydlogrwydd tîm y ward. Roedd llai o staff banc ac asiantaeth yn cael eu defnyddio, ac roedd y bwrdd iechyd wedi recriwtio pum nyrs gofrestrdig ychwanegol yn Ysbyty Gwynllyw, a phenodwyd rhai o'r rhain i Ward Penhow.**

### **Lefelau staffio, cymysgedd sgiliau, ac atebolrwydd proffesiynol**

*Dangosodd trafodaethau gyda'r staff yn ystod yr arolygiad diwethaf fod y lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau (hynny yw, y gymysgedd o nyrsys cofrestredig a chynorthwyr gofal iechyd sy'n gysylltiedig â gofal iechyd) ar Ward Penhow fwy neu lai wedi cael eu sicrhau trwy ddefnyddio nyrsys banc a nyrsys asiantaeth. Prin iawn oedd y staff a oedd yn gweithio ar y ward yn rhan o dîm parhaol bryd hynny.*



*Canfuwyd gennym hefyd fod y bwrdd iechyd wedi penodi rheolwr newydd i'r ward (ar secondiad) bedair wythnos cyn ein harolygiad.*

*Datgelodd sgysiau gyda'r staff hefyd eu bod yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu brysio yn eu hymdrechion i ddiwallu anghenion newidiol/cymhleth y cleifion yn llawn.*

Ers hynny, mae'r bwrdd iechyd wedi cyflogi rhagor o nyrsys cofrestredig yn barhaol i weithio yn Ysbyty Gwynllyw, a phenodwyd rhai o'r rhain i Ward Penhow. Canlyniad hyn yw bod gweithlu mwy sefydlog, sy'n cael ei annog i ddeall a hybu gwerthoedd ac ethos y ward.

Cawsom sylwadau cadarnhaol o sgysiau â'r staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad ynghylch y lefel o gymorth ac arweiniad yr oeddent yn ei derbyn wrth weithio. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod wedi chwarae rhan weithredol mewn gwella'r ffordd yr oedd gofal a chymorth yn cael eu darparu i gleifion.

Gwnaethom edrych ar rota dyletswyddau'r staff dros y pythefnos cyn ein harolygiad a'r pythefnos dilynol, a chanfuom fod y ddibyniaeth ar staff asiantaeth a staff banc lawer llai. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn fwy tebygol o dderbyn gofal gan grŵp o staff a oedd yn debyg iddynt.

Datgelodd trafodaethau â rheolwr y ward fod anghenion cyffredinol y cleifion ar y ward yn cael eu hadolygu mewn cyfarfod amlddisgyblaethol dyddiol. Dywedwyd wrthym fod lleoliad cleifion ar y ward weithiau'n newid o ganlyniad i'r cyfarfodydd hynny. Roedd hyn er mwyn dosbarthu gwaith yn gyfartal ar draws pob un o'r tri thîm staff penodedig ac i sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu bob amser.

### **Hyfforddiant a datblygiad**

*Datgelodd sgysiau gyda mwyafrif y staff a oedd yn bresennol yn ystod ein harolygiad blaenorol nad oedd staff parhaol na staff banc wedi derbyn hyfforddiant priodol o ran anghenion penodol cleifion a oedd yn derbyn gofal ar Ward Penhow. Yn benodol, canfuwyd gennym nad oedd y staff wedi derbyn hyfforddiant priodol o ran diogelu oedolion, deliriwm, gofalu am gleifion â dementia, iechyd a diogelwch, neu bynciau penodol i gleifion megis anabledau dysgu. Dangoswyd yn eglur o graffu ar sampl o gofnodion cleifion a sgysiau gyda chleifion bryd hynny bod gan nifer o unigolion anghenion cymhleth yn gysylltiedig â graddau amrywiol o namau gwybyddol ac eiddilwch corfforol.*

Yn yr arolygiad hwn, canfuom fod staff wedi cael amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant yn ddiweddar. Er enghraifft, roedd staff wedi mynychu hyfforddiant ar y ward ynglŷn ag asesu ymataliaeth, atal a rheoli heintiau, ac ymwybyddiaeth maeth. Dywedwyd wrthym hefyd fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein ar amrywiaeth o destunau yn ymwneud â chleifion drwy *Health Learning Wales* (er enghraifft, gofal dementia). Fe'n hysbyswyd hefyd gan reolwr y ward bod yr holl staff wedi derbyn

gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch trefniadau amddiffyn oedolion Lefel 1, ac roedd hyfforddiant Lefel 2 yn mynd rhagddo.

Gwnaeth y bwrdd iechyd hefyd hysbysu AGIC y byddai'r gweithwyr cymorth gofal iechyd yn mynychu hyfforddiant sgiliau arsylwi'n barhaus.

Darparwyd hyfforddiant pwrpasol i'r staff ynglŷn ag iechyd meddwl oedolion, gyda phwyslais ar ofal cleifion â dementia, iselder a deliriwm. O ganlyniad, penodwyd dau 'eiriolwr' dementia o fewn y ward. Fe'n hysbyswyd y byddai'r ddau aelod o staff dan sylw yn parhau i rannu gwybodaeth berthnasol â gweddill tîm y ward yn y dyfodol.

Fe'n hysbyswyd bod y staff wedi derbyn gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch gwasanaethau anabledau dysgu, ac y bydd hyfforddiant pwrpasol yn cael ei drefnu erbyn diwedd mis Ebrill 2015.

Ar ddiwrnod yr arolygiad hwn, gwnaethom siarad â chynrychiolydd o'r tîm RAID (mae hyn yn sefyll dros *rapid assessment, interface and discharge*). Mae'r tîm iechyd meddwl amlddisgyblaethol arbenigol hwn bellach yn gweithio gyda'r staff ar Ward Penhow yn rheolaidd i gynorthwyo cleifion yn ystod eu hasesiad ward, diagnosis a thriniaeth.

Yn sgil sgwrs â rheolwr y ward, ac ar ôl ystyried dogfennau hyfforddiant a gedwir ar y ward, cadarnhawyd bod y nyrsys cofrestredig wedi cael asesiad ffurfiol o'u gallu i roi a chofnodi meddyginiaethau rhagnodedig. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai pob nyrs gofrestrdig yn destun adolygiad blynyddol o'i gallu yn y maes hwn.

Cadarnhaodd rheolwr y ward y byddai hyfforddiant staff yn y dyfodol yn cael ei bennu drwy adolygiadau datblygu personol.

## **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol**

*Rhaid bod yn rhagweithiol wrth hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl. Rhaid nodi a monitro risgiau, a'u lleihau neu eu hatal lle bo hynny'n bosibl.*

**Canfuom fod gwelliannau wedi eu gwneud er mwyn sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles y cleifion yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn. Yn fwy penodol, roedd y staff ar fin derbyn hyfforddiant ynglŷn â gweithredu deddfwriaeth y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd tîm y ward hefyd yn cael ei gynorthwyo a'i gynghori gan gynrychiolwyr gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion Hŷn y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw gleifion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.**

**Ers ein harolygiad cyntaf, roedd holl staff Ward Penhow wedi cael eu hatgoffa o bwysigrwydd gweinyddu meddyginiaethau'n ddiogel a pholisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd. Yn ogystal, roedd yr holl nyrsys cofrestredig wedi cwblhau ymarfer rownd gyffuriau dan oruchwyliaeth gyda rheolwr y ward, ac o ganlyniad gweithredwyd safonau proffesiynol a pholisïau'r bwrdd iechyd yn gyson.**

### **Rheoli risgiau**

*Yn flaenorol, canfuom nad oedd staff y ward yn gallu nodi 'sbardunau' ar gyfer defnyddio deddfwriaeth a adnabyddir fel trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Yn benodol, canfuwyd bod gan nifer o gleifion a oedd yn derbyn gofal ar y ward anawsterau/anghenion cyfathrebu cymhleth. Nid oedd cleifion o'r fath wedi bod yn destun asesiad i benderfynu a oeddent yn gallu gwneud penderfyniadau am eu gofal parhaus ac yn y dyfodol (neu a oedd angen i berthnasau/eiriolwyr gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny a chynorthwyo â nhw).*

Ers ein harolygiad cyntaf, dywedodd y bwrdd iechyd y byddai'r staff yn cael hyfforddiant priodol o ran defnyddio a gweithredu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Yn ystod yr arolygiad hwn, roeddem yn gallu cadarnhau bod hyfforddiant yn mynd rhagddo; fodd bynnag, nid oedd yr holl staff yn gallu mynychu hyfforddiant oherwydd cyfyngiadau amser. Byddai'r sesiynau'n parhau, felly, drwy gydol mis Ebrill 2015. Yn y cyfamser, roedd y staff yn derbyn cyngor a chymorth gan y tîm Iechyd Meddwl i Oedolion Hŷn a'r gwasanaeth cyswllt a leolir yn Ysbyty Gwynllyw er mwyn sicrhau nad oedd cleifion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon wrth dderbyn gofal a thriniaeth ar y ward.

## **Rheoli meddyginiaeth**

*Dull a threfn ddyddiol y ward*

*Yn ystod arolygiad blaenorol AGIC, gwnaethom nodi nifer o feysydd i'w gwella ynghylch rhoi a chofnodi meddyginiaeth presgripsiwn cleifion. Yn benodol, canfuwyd gennym nad oedd y staff yn gwirio bandiau llawes y cleifion cyn rhoi meddyginiaeth presgripsiwn. Canfuwyd tystiolaeth gennym hefyd fod meddyginiaeth wedi cael ei hychwanegu at gofnod rhoi meddyginiaeth claf nad oedd wedi'i llofnodi gan aelod o'r tîm meddygol. Codwyd y mater gan fferyllydd y ward cyn ein harolygiad; fodd bynnag, ni ychwanegwyd llofnod. Serch hynny, roedd y feddyginiaeth dan sylw'n dal i gael ei rhoi gan y staff.*

*Tynnwyd sylw'r bwrdd iechyd at y materion uchod trwy lythyr sicrhau ar unwaith AGIC. Fe'n hysbyswyd ers hynny bod meddyg y ward wedi llofnodi siart meddyginiaeth y claf fel sy'n ofynnol i gefnogi'r weithred o roi'r cyffuriau dan sylw.*

*Canfuwyd y pryderon canlynol yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau hefyd:*

- *Roedd pob un o'r pum cofnod meddyginiaeth a welwyd yn cynnwys bylchau lle dylai llofnodion nyrsys wedi bod (i gadarnhau y cymerwyd y feddyginiaeth gan y cleifion dan sylw). Datgelodd trafodaeth gyda nyrsys cofrestredig eu bod yn aml yn teimlo eu bod ar frys yn ystod 'rowndiau meddyginiaeth' a bod yn rhaid iddynt ddychwelyd at gleifion yn aml i gynnig meddyginiaeth presgripsiwn gan eu bod yn gwrthod cymryd eu meddyginiaeth i gychwyn.*

*Ers ein harolygiad ym mis Rhagfyr 2014, mae gofyn i nyrsys cofrestredig wisgo tabardau coch 'peidiwch â tharfu'. Gwnaeth trafodaethau â'r staff a rheolwr y ward ddangos bod y mesur syml hwn wedi lleihau nifer yr achosion o darfu yn yr adegau hanfodol hynny yn ystod y dydd neu'r nos. Dywedwyd wrthym hefyd fod y newid hwn wedi rhoi mwy o amser i nyrsys cofrestredig i roi sylw i'r gwaith o gofnodi meddyginiaeth presgripsiwn ar ôl ei rhoi i'r claf.*

- *Gadawyd y troli cyffuriau heb ei goruchwyllo gan nyrs gofrestrdig, a olygodd y bu'n rhaid i aelod o'r tîm arolygu ymyrryd i sicrhau bod y cyffuriau'n cael eu diogelu.*

*Dangosodd sgysiau â rheolwr y ward fod yr holl nyrsys cofrestredig wedi cael eu hatgoffa o'r angen i sicrhau nad yw'r troli cyffuriau byth yn cael ei adael heb neb ar ei gyfyl. Ni adawyd y troli cyffuriau heb oruchwyliaeth ar unrhyw adeg yn ystod ein harolygiad dilynol.*

- *Nid oedd gan un o bob tri o'r cleifion ar y ward fandiau llewys, ac nid yw hynny'n cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd. Roedd gan fwyafrif y cleifion hyn anawsterau cyfathrebu cymhleth, ac ni fyddent wedi gallu cadarnhau*

*eu henw, eu cyfeiriad a'u dyddiad geni. Hefyd, roedd y ward wedi'i staffio'n bennaf gan nyrsys banc ac asiantaeth. Roedd yr uchod yn rhoi cleifion mewn perygl diangen. Tynnwyd sylw rheolwyr y ward at y mater ar unwaith felly, a threfnodd i newid bandiau llewys pob claf yn brydlon iawn. Siaradodd rheolwr y ward â'r nyrsys cofrestredig ar ddyletswydd hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn gwirio manylion adnabod y cleifion yn y dyfodol fel sy'n ofynnol.*

Ers ein harolygiad cyntaf, roedd rheolwr y ward wedi cyflwyno archwiliadau wythnosol i wirio bod pob claf yn gwisgo band enw. Hyd yn hyn, nid oes yna wedi bod rhagor o achosion lle nad oedd cleifion yn gwisgo band enw, fel y nodwyd.

- *Datgelodd trafodaethau gyda'r nyrsys cofrestredig nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o feddyginiaeth ers cyfnod sylweddol o amser.*

Mae pob nyrs gofrestrredig wedi gorfod mynychu gweithdy rheoli meddyginiaeth ers ein harolygiad ym mis Rhagfyr 2014. Byddai hyn wedi cael ei gyflawni erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod rheolwr y ward a nyrs gofrestrredig arall yn cwblhau archwiliad o reoli meddyginiaeth bob mis i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol a pholisïau'r bwrdd iechyd.

## **Dogfennau**

### *Asesu cleifion*

*Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwnaethom edrych ar gynnwys cofnodion pum claf a siarad â'r cleifion dan sylw a chyda staff a oedd yn gyfarwydd â'u gofal a'u triniaeth.*

*O ganlyniad, canfuwyd gennym fod y cofnodion yn cynnwys cyfuniad o asesiadau risg, ac roedd rhai ohonynt yn ymwneud â chwympau, wlserau pwyso a gofal y geg cleifion. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod asesiadau risg yn tueddu i gael eu dilyn gan gynlluniau gofal nad oeddent yn darparu manylion digonol i helpu tîm y staff i wybod pa lefel o ofal a chymorth sydd ei angen ar bob claf.*

*Canfuwyd gennym hefyd mai prin oedd y wybodaeth ddefnyddiol a ddarparwyd gan y cofnodion a oedd yn ymwneud â gwerthuso'r gofal a roddwyd. Roedd hyn yn golygu efallai nad oedd gan staff banc neu asiantaeth gyfarwyddyd eglur ar sut i ddiwallu anghenion a nodwyd ac anghenion newidiol y cleifion neu ymateb i'w dymuniadau a'u dewisiadau.*

Yn yr arolygiad hwn, gwnaethom gynnal sgysiau â rheolwr y ward a staff nyrsio eraill, ac fe'n hysbyswyd bod hyfforddiant y staff ynglŷn â dogfennaeth wedi cael ei adolygu ac yna ei gyflenwi i dîm y ward gan reolwr y ward.

Dywedwyd wrthym hefyd y byddai sampl o ddogfennau cleifion yn cael eu harchwilio gan yr uwch-nyrs yn fisol.

Gwnaethom edrych ar dri chofnod cleifion yn yr arolygiad hwn, a chanfuom fod yna wedi bod rhai gwelliannau o ran manylder asesiadau risg a chynlluniau gofal, ac y byddai hyn yn helpu'r staff i ddeall anghenion, dymuniadau a hoffterau'r cleifion.

## Y Camau Nesaf

Nid oedd yn rhaid i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella arall o ganlyniad i'r arolygiad dilynol hwn gan AGIC.